



Comisiynydd Plant Cymru

Beth Nesa? What Next? Holiadur 7-11

Darganfyddidau manwl



Cyflwyniad	02
Am yr arlowg	03
Cyflwyno'r canfyddiadau	08
Yr Ysgol/Coleg	11
Yr ardal leol	16
Blaenoriaethau	26



**beth nesa'
what next**

dweud eich dweud
have your say

Cyflwyniad

Adroddiad yw hwn ar yr arolwg o blant ysgol gynradd a gynhaliwyd yn hydref 2015 fel rhan o brosiect 'Beth Nesa? | What Next?'. Roedd yr arolwg yn un o gyfres o bedwar, a gynhaliwyd gyda grwpiau o blant o wahanol oedrannau, a chydag oedolion, yn casglu eu barn a'u profiadau er mwyn llywio blaenoriaethau Comisiynydd Plant Cymru i'r dyfodol.

Am yr arolwg

Cynnwys yr holiadur

Roedd yr arolwg yn cynnwys holiadur hunan-lenwi, oedd yn cael ei gwblhau'n bennaf gan blant ar-lein trwy ddefnyddio cyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol. Roedd fersiynau papur o'r holiadur ar gael hefyd ar gais. Roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg, yn Saesneg ac yn Iaith Arwyddion Prydain (BSL).

Dull dosbarthu

Cafodd gwybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys y dolenni i'r holiaduron ar-lein, ei dosbarthu mor eang â phosib yng Nghymru. Roedd hynny'n cynnwys anfon gwybodaeth i ysgolion, cyrraedd rhieni trwy gyfryngau cymdeithasol, ymgyrch radio, a hysbysebion ar y we.

Y sampl

Derbyniwyd cyfanswm o 2,909 o holiaduron wedi'u cwblhau, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn¹. Cafodd tua 9% o'r ymatebion eu llenwi yn Gymraeg a thua 91% yn Saesneg. Dangosir nodweddion y plant yma yn Nhabl 1:

- Roedd tua 51% o blant yn diffinio'u hunain yn ferch, 47% yn diffinio'u hunain yn fachgen, a dewisodd rhyw 2% yr opsiwn 'gwell peidio dweud' mewn ymateb i'r cwestiwn yma.
- Roedd dros draean (35%) o'r sampl yn 10 oed. Roedd y gyfran fach o blant 11 oed yn cyfateb i'r disgwyl, o ystyried bod yr arolwg yn cael ei gynnal yn rhan gyntaf tymor yr hydref.
- Diffiniodd ychydig dros hanner (55%) y plant eu hunain fel 'Gwyn – Cymreig', a dywedodd 35% arall eu bod yn 'Gwyn – Seisnig', 'Gwyn – Prydeinig' neu 'Gwyn – Arall'. Diffiniodd tua 9% eu hunain fel rhai o gefndir Du a lleiafrifoedd ethnig eraill, fel mae Tabl 1 yn crynhoi. Mae hyn yn uwch nag amcangyfrif gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), sef 6% o blant 0-15 oed o darddiad BME yng Nghymru yn 2009.
- Atebodd tua 4% o'r sampl 'byddwn' i'r cwestiwn 'Fyddet ti'n dweud dy fod ti'n anabl?' ond roedd 27% ddim yn siŵr neu heb roi ymateb i'r cwestiwn yma.
- Atebodd tua 18% o'r sampl 'ydw' i'r cwestiwn 'Wyt ti wedi bod mewn gofal?'. Mae hyn yn llawer uwch na'r gyfran yn y boblogaeth gyffredinol ac mae'n ymddangos yn debygol iawn bod rhai plant wedi camddeall ystyr y cwestiwn yma.

¹ Cychwynwyd yr arolwg ar-lein hefyd gyfanswm o 611 o weithiau ychwanegol, ond roedd y cynigion hynny naill ai'n wag neu'n

cynnwys ychydig iawn o ddata, gan i'r ymatebydd adael yr arolwg o fewn y cwestiynau cyntaf.

Tabl 1: Nodweddion y sampl (heb eu pwysoli)


Rhyw	
Merch	51%
Bachgen	47%
Gwell peidio dweud	2%
Oed	
7 oed	15%
8 oed	20%
9 oed	22%
10 oed	35%
11 oed	8%
Grŵp ethnig	
Gwyn – Cymreig	55%
Gwyn – Prydeinig	11%
Gwyn – Seisnig	23%
Gwyn – Arall ²	1%
Indiaidd/Pacistani/Bangladeshi	2%
Du/Affricanaidd/Caribiaidd	1%
Cymysg	3%
Arall ³	3%
Anabl	
Ydw	4%
Ddim yn siŵr	8%
Nac ydw	69%
Dim ymateb	19%
Wedi bod mewn gofal	
Ydw	18%
Nac ydw	62%
Dim ymateb	20%

² Mae 'Gwyn – Arall' yn cynnwys y categorïau canlynol: Gwyn – Gwyddelig (0.8%), Gwyn – Albanaidd (0.5%), Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig (0.7%) ac Unrhyw Gefndir Gwyn Arall (2.0%).

³ Mae 'Arall' yn cynnwys y categorïau canlynol: Arabaidd (1.2%), Tsieineaidd (0.8%), Unrhyw Gefndir Arall Asiaidd (1.7%) ac Unrhyw Grŵp Ethnig Arall (0.9%)


Dangosir canran y plant fesul ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn Ffigur 1.

Ffigur 1: Canran y plant yn y sampl fesul ardal awdurdod lleol



Cafodd yr ardaloedd hyn eu grwpio'n bedwar rhanbarth 'macro', i gynrychioli gwahanol rannau o Gymru, a chafodd canrannau'r sampl ym mhob rhanbarth eu cymharu â chanrannau'r plant yn y boblogaeth gyfan fesul rhanbarth (Ffigur 2). Roedd peth tangynrychiolaeth yn achos rhanbarthau'r Cymoedd a'r Gogledd Gwledig, a gorgynrychiolaeth cyfatebol yn y rhanbarth Metropolitan. Rhoddwyd ystyriaeth i hynny wrth bwysoli'r sampl i'w ddadansoddi (gweler yr adran nesaf).

Ffigur 2: Canran y plant yn y sampl ac yn y boblogaeth fesul rhanbarth macro



Roedd yr holiadur hefyd yn cynnwys cyfres o bedwar cwestiwn er mwyn mesur cefndir economaidd teulu'r plant (Graddfa Cyfoeth Teuluoedd). Roedd yn holi faint o gerbydau oedd gan y teulu; a oedd gan y plentyn ystafell wely iddo/iddi ei hun; faint o weithiau roedd y teulu wedi bod ar wyliau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; a faint o gyfrifiaduron oedd gan y teulu. Fodd bynnag, yn y grŵp oedran yma, roedd cyfran sylweddol (rhwng 15% ac 20%) o'r plant heb ddarparu atebion i bob un o'r cwestiynau yma, felly doedd dim modd defnyddio'r mesur hwn wrth ddadansoddi.

Yr holiadur

Roedd yr holiadur yn cynnwys 37 o gwestiynau yn yr adrannau canlynol:

- Amdanat ti
- Yr ysgol a'r coleg
- Yr ardal leol
- Gwybodaeth am hawliau plant
- Defnydd o ieithoedd
- Blaenoriaethau pobl ifanc

Roedd mwyafrif y cwestiynau mewn fformat blwch ticio caeedig. Roedd ambell gwestiwn â fformat ymateb penagored. Mae geiriad y cwestiynau a'r opsiynau ymateb i'w gweld yn yr adrannau perthnasol ar y canfyddiadau.

Cyflwyno'r canfyddiadau

Pwysiad

Fel y nodwyd uchod, roedd dosbarthiad y plant yn anwastad o'i gymharu â phoblogaeth gyffredinol Cymru yn y grŵp oedran yma. Er mwyn rhoi sylw i hyn a sicrhau bod yr arolwg mor gynrychioliadol â phosib, cafodd y pwysiadau eu cyfrifo. Roedd y pwysiadau hyn yn sicrhau bod cydbwysedd y sampl (a) yn gyfartal o ran rhyw, (b) yn gyfartal o ran oed ac (c) yn cyfateb i gyfran poblogaeth y plant yn y grŵp oed dan sylw oedd yn byw yn y pedwar rhanbarth macro.

Mae'r holl ganfyddiadau a gyflwynir yng ngweddill yr adroddiad wedi'u pwysoli fel y disgrifiwyd uchod.

Data coll

Roedd lefelau cymharol isel (llai na 10%) o ddata coll yn achos yr holl gwestiynau, ac mae'r ymatebion hyn wedi'u heithrio o'r canrannau a drafodir oni nodir fel arall.

Talgrynnu

Er hwylustod wrth gyflwyno mae'r holl ganrannau wedi cael eu talgrynnu i'r pwynt canran agosaf, felly mae'n bosib na fydd cyfansymiau'r cwestiynau'n creu cyfanswm union o 100%.

Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle bynnag yr oedd modd, gwnaed cymariaethau ystadegol o ran yr ymatebion i bob cwestiwn yn ôl rhyw, grŵp oed ac yn ôl rhanbarth (lle'r ymddangosai fod hynny'n berthnasol). Oherwydd mai nifer bach o blant (llai na 50) a atebodd 'gwell peidio dweud' i'r cwestiwn ynghylch rhyw, nid oedd modd cynnwys y grŵp hwnnw wrth gymharu. Mae'r cymariaethau rhyw, felly, rhwng y plant a ddewisodd yr opsiynau 'Merch' a 'Bachgen' yn unig.

Gwnaed yr holl gymariaethau gan ddefnyddio profion chi-sgwâr a lle'r adroddir bod gwahaniaethau'n ystadegol arwyddocaol, mae hynny'n cyfeirio at werth-p sy'n llai na 0.01 (lefel hyder o 99%). Fodd bynnag, fel y trafodwyd uchod, dylid nodi nad sampl ar hap o blant yng Nghymru a ddefnyddiwyd yma, a hefyd bod yr ymatebion wedi'u clystru i ryw raddau (er enghraifft, oherwydd bod plant o'r un ysgolion yn cymryd rhan yn yr arolwg). Felly dylid ystyried yr holl gymariaethau'n rhai petrus.

Strwythur yr adroddiad

Mae strwythur yr adroddiad yn dilyn strwythur yr holiadur yn fras, a chyflwynir y canfyddiadau mewn adrannau pynciol.

Ar ddechrau pob adran ceir trosolwg o'r cwestiynau a ofynnwyd a chrynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn ar gyfer y sampl cyfan a bwysolwyd. Yna mae'r gwahanol is-grwpiau'n cael eu cymharu, ac mae'r siartiau'n dangos y prif bwyntiau lle ceir gwahaniaeth

Yr ysgol a'r coleg

Yng nghyswllt profiadau plant o'r ysgol, roedd yr arolwg yn gofyn:


- Tri chwestiwn cyffredinol am yr ysgol – hoffi mynd i'r ysgol; teimlo'n ddiogel; ac a oedd athrawon yn gwranddo ac yn cymryd barn y plant o ddifri
- Tri chwestiwn am eu cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr ysgol
- Tri chwestiwn am eu profiadau o gael eu bwlio yn yr ysgol

Cwestiynau cyffredinol am yr ysgol

Ceir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau cyffredinol am yr ysgol ac am y gwersi ABCh yn Ffigur 3.

- Roedd dros dri chwarter o'r plant yn cytuno eu bod nhw'n hoffi mynd i'r ysgol.
- Roedd mwyafrif y plant yn teimlo'n ddiogel, a dim ond rhyw un o bob 20 oedd ddim yn teimlo'n ddiogel.
- Roedd tua thri chwarter o'r plant yn teimlo bod eu hathrawon yn gwranddo arnyn nhw ac yn eu cymryd o ddifri

Ffigur 3: Trosolwg o'r cwestiynau cyffredinol am yr ysgol



Rhyw

Roedd atebion y merched yn arwyddocaol fwy cadarnhaol na rhai'r bechgyn i'r cwestiynau hyn. Er enghraifft, roedd 81% o'r merched yn cytuno eu bod nhw'n hoffi mynd i'r ysgol, o gymharu â 75% o'r bechgyn.


Grŵp oedran

Doedd dim patrymau oed arwyddocaol yn achos y tri chwestiwn yma.

Cyfranogiad yn yr ysgol


Gofynnwyd i'r bobl ifanc pa mor aml roedden nhw'n cael gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ysgol. Dywedodd tua 30% o'r plant fod hynny'n digwydd yn eitha aml neu'n aml iawn. Dywedodd tua un o bob chwech (16%) o'r plant fod neb byth yn gofyn eu barn. Roedd tua 30% yn cael gofyn eu barn yn eitha aml neu'n aml iawn

Ffigur 4: Amllder cael gofyn barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ysgol




Gofynnwyd i'r bobl ifanc (heblaw am y rhai a atebodd 'byth' i'r cwestiwn uchod) pa mor aml bydden nhw'n clywed beth ddigwyddodd yn y diwedd ar ôl i rywun ofyn eu barn. Fel y gwelir yn Ffigur 5, dywedodd bron dau bumed o'r plant eu bod nhw bob amser neu fel arfer yn clywed y canlyniad.

Ffigur 5: Amllder clywed canlyniadau bod yn rhan o ymgynghori yn yr ysgol



Yn olaf, gofynnwyd i'r holl blant hefyd faint o wahaniaeth roedden nhw'n meddwl bod barn plant yn ei wneud yn yr ysgol. Roedd dros chwarter yn teimlo bod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr, ac roedd cyfran debyg yn meddwl ei bod yn gwneud peth gwahaniaeth. Dim ond ychydig (4%) oedd yn teimlo bod barn plant yn gwneud dim gwahaniaeth o gwbl.

Ffigur 6: Ymatebion ynghylch faint o wahaniaeth mae barn plant yn ei wneud yn yr ysgol



Gwahaniaethau rhyw ac oed

Doedd dim gwahaniaethau rhyw arwyddocaol yn yr ymatebion i'r cwestiynau hyn, na chwaith batrymau clir o ran oedran..


Profiadau o gael eu bwlio

Gofynnwyd i'r bobl ifanc pa mor aml roedden nhw wedi profi tri math o fwlio yn ystod y mis diwethaf:

- Cael eu taro gan blant eraill yn yr ysgol
- Cael eu gadael allan gan blant eraill yn y dosbarth
- Cael eu galw'n enwau cas neu gael pobl yn gwneud hwyl am eu pen

Gwelir trosolwg o'r ymatebion i'r tri chwestiwn yma yn Ffigur 7. Dywedodd tua hanner y plant eu bod wedi profi pob un o'r mathau o fwlio o leiaf unwaith yn ystod y mis diwethaf.

Ffigur 7: Trosolwg – profiadau o gael eu bwlio



Gwahaniaethau rhyw


Roedd gwahaniaethau arwyddocaol yn atebion y merched a'r bechgyn i ddau o'r tri chwestiwn yma (gweler Ffigur 8).

- Roedd bechgyn yn fwy tebygol na merched o gael eu taro gan blant eraill. .
- Roedd merched yn fwy tebygol na bechgyn o gael eu gadael allan gan blant eraill yn y dosbarth.
- Doedd dim gwahaniaeth arwyddocaol o ran galw enwau ar ferched a bechgyn.

Grŵp oed

- Roedd tuedd bod plant hŷn (yn y grŵp oed 7-11) yn llai tebygol o fod wedi profi pob un o'r mathau yma o fwlio na phlant iau.

Ffigur 8: Profiadau o gael eu bwlio yn ôl rhyw



Yr ardal leol

Gofynnodd yr arolwg:


- Chwe chwestiwn cyffredinol ynghylch barn plant am yr ardal leol, yn trafod y cyfleusterau, diogelwch ac a oedden nhw'n teimlo bod oedolion yn gwrando arnyn nhw
- Tri chwestiwn am gyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr ardal leol
- Un cwestiwn am brofiadau o erledigaeth yn yr ardal leol

Barn gyffredinol am yr ardal leol

Mae trosolwg o ymatebion y plant i'r chwe chwestiwn cyffredinol i'w weld yn Ffigur 9:

- Roedd mwyafrif y plant yn cytuno bod mannau iddyn nhw fynd yn eu hardal leol a bod digon o bethau difyr i'w gwneud lle roedden nhw'n byw. Dim ond 15% oedd yn cytuno bod dim i'w wneud yn eu hardal.
- Roedd mwyafrif y plant yn cytuno eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel yn cerdded o gwmpas yn eu hardal leol, ond roedd tua un o bob saith (13%) yn anghytuno â'r gosodiad yma
- Roedd bron traean (31%) yn cytuno bod y ffyrdd lleol yn beryglus
- Roedd mwy na dau o bob pum plentyn (43%) yn cytuno bod oedolion yn eu hardal yn gwrando ar farn plant, ac roedd dau arall o bob pum ddim yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd ychydig o dan bumed yn anghytuno.

Ffigur 3: Trosolwg – barn am yr ardal leol



Rhyw

Dim ond un gwahaniaeth rhyw arwyddocaol a welwyd yn yr atebion i'r cwestiynau yma – roedd merched ychydig yn llai tebygol (65%) na bechgyn (70%) o gytuno bod llawer o bethau difyr i'w gwneud lle roedden nhw'n byw.


Grŵp oed

Y patrwm oedran mwyaf trawiadol yn yr ymatebion oedd bod y plant hŷn yn sylweddol lai tebygol na'r plant iau o gytuno bod y ffyrdd yn eu hardal yn beryglus.

Rhanbarth

Roedd gwahaniaethau arwyddocaol rhwng y rhanbarthau macro o ran barn y plant am eu hardal leol. Fel y dangosir yn Ffigur 10, roedd tuedd bod gan blant yn rhanbarthau'r Cymoedd a'r Gogledd Gwledig farn lai cadarnhaol ynghylch cyfleusterau a diogelwch na'r rhai yn y Canoldir Gwledig a'r rhanbarth Metropolitan..

Ffigur 10: Barn am yr ardal leol yn ôl rhanbarth




Cyfranogiad yn y broses o wneud penderfyniadau yn lleol

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r bobl ifanc ynghylch eu cyfranogiad mewn penderfyniadau lleol a oedd yn debyg i'r rhai a drafodwyd ar gyfer yr ysgol yn gynharach..


Yn gyntaf, roedd cwestiwn ynghylch amllder cael gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ardal leol. Ceir crynodeb o'r ymatebion yn Ffigur 11. Ychydig o'r plant (15%) ddywedodd eu bod yn cael gofyn eu barn yn aml (yn eitha aml neu'n aml iawn), a dywedodd tua thraean (35%) nad oedd neb byth yn gofyn eu barn.

Ffigur 11: Amllder cael gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ardal leol




Wedyn gofynnwyd i'r bobl ifanc oedd yn dweud bod rhywun wedi gofyn eu barn pa mor aml roedden nhw'n clywed canlyniad hynny. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Ffigur 12. Dywedodd tua 30% o'r plant hyn eu bod nhw fel arfer neu bob amser yn clywed beth oedd y canlyniad..

Ffigur 12: Amllder clywed y canlyniad yn dilyn ymgynghoriad barn ar yr ardal leol



Yn olaf, gofynnwyd i'r plant faint o wahaniaeth roedden nhw'n teimlo bod barn plant yn ei wneud i beth oedd yn digwydd yn eu hardal leol. Dywedodd un o bob pump (21%) o'r plant eu bod nhw'n teimlo bod barn plant yn gwneud gwahaniaeth mawr, a dywedodd 33% arall eu bod nhw'n teimlo eu bod yn gwneud peth gwahaniaeth..

Ffigur 13: Ymatebion ynghylch y gwahaniaeth mae barn plant ar yr ardal leol yn ei wneud




Roedd rhai gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ymatebion yr is-grwpiau i'r cwestiwn ynghylch amlder gofyn eu barn ynghylch beth sy'n digwydd yn yr ardal leol, ond nid oedd y rhain yn darparu patrymau gwahaniaeth clir y gellid eu dehongli rhwng yr is-grwpiau.

Profiadau o erledigaeth yn yr ardal leol

Gofynnwyd cwestiwn i'r bobl ifanc ynghylch pa mor aml byddai plant eraill yn eu brifo neu'n pigo arnyn nhw pan fydden nhw allan yn yr ardal leol (Ffigur 14). Dywedodd dros hanner y plant fod hyn wedi digwydd iddyn nhw o leiaf unwaith. .

Ffigur 14: Pan fyddi di allan yn dy ardal leol, pa mor aml mae plant eraill yn dy frifo di neu'n pigo arnat ti'n fwriadol?



Doedd dim gwahaniaethau oed na rhyw arwyddocaol o ran tebygolrwydd bod wedi cael y profiad yma. Roedd plant yn rhanbarth y Canoldir Gwledig yn llai tebygol nag yn y rhanbarthau eraill o ddweud eu bod erioed wedi profi erledigaeth yn eu hardal leol.

Gwybodaeth am hawliau plant


Gofynnwyd pum cwestiwn seiliedig ar osodiadau i'r bobl ifanc ynghylch hawliau plant. Mae geiriad y gosodiadau a chrynodeb o ymatebion y plant i'w gweld yn Ffigur 15.

- Dywedodd dros hanner y plant (53%) yn y grŵp oed yma eu bod yn gwybod am hawliau plant, er bod llai (35%) yn dweud eu bod yn gwybod pa hawliau sydd gan blant o dan Gonfensiwn y CU ar Hawliau'r Plentyn.
- Roedd y mwyafrif wedi dysgu am hawliau plant yn yr ysgol, ac yn dweud y bydden nhw'n hoffi dysgu mwy am eu hawliau
- Roedd mwyafrif y plant a fu'n cymryd rhan yn yr arolwg (65%) mewn ysgolion sy'n rhan o gynllun Llysgenhadon Gwych y Comisiynydd Plant. Mae'n bosib bod plant yn yr ysgolion hyn yn fwy tebygol na phlant mewn ysgolion eraill o fod wedi derbyn gwybodaeth am eu hawliau.

Gwahaniaethau rhyw ac oed

Roedd bechgyn (21%) ychydig yn fwy tebygol na merched (14%) o ddweud eu bod nhw ddim yn gwybod am hawliau plant, fel yr oedd plant iau yn y grŵp oed yma.

Ffigur 15: Trosolwg - Gwybodaeth am hawliau plant




Defnydd o ieithoedd

Gofynnwyd tri chwestiwn i'r bobl ifanc ynghylch pa ieithoedd roedden nhw'n eu defnyddio gartref, yn yr ysgol a chydau ffrindiau. Ym mhob achos, cynigiwyd tri opsiwn – Cymraeg, Saesneg ac Arall. Roedd modd dewis mwy nag un ymateb i bob cwestiwn. Mae trosolwg o'r ymatebion i'w weld yn Ffigur 16..

- Roedd pobl ifanc yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio Cymraeg yn yr ysgol (48%) na gartref (18%) neu gyda ffrindiau (15%).
- Roedd lefelau'r defnydd o Saesneg yn debyg iawn ym mhob un o'r tri lleoliad. .
- Dywedodd tua un o bob 11 o blant eu bod nhw'n siarad ieithoedd eraill gartref. .

Ffigur 16: Trosolwg – defnydd o ieithoedd gartref, yn yr ysgol a chydau ffrindiau



Mae'r cymariaethau sy'n dilyn yn cyfeirio at y defnydd o'r Gymraeg.

Rhyw

Nid oedd gwahaniaethau arwyddocaol o ran rhyw yn y defnydd o'r Gymraeg gartref, yn yr ysgol na chyda ffrindiau.

Oed

Roedd plant naw oed a throsodd ychydig yn fwy tebygol o ddefnyddio Cymraeg yn yr ysgol na phlant iau.

Rhanbarth

Plant oedd yn byw yn rhanbarth y Gogledd Gwledig oedd y rhai mwyaf tebygol o ddefnyddio Cymraeg gartref a chyda'u ffrindiau. Plant oedd yn byw yn rhanbarth y Canoldir Gwledig oedd y rhai mwyaf tebygol o ddefnyddio Cymraeg yn yr ysgol. Plant yn y rhanbarth Metropolitan oedd y rhai lleiaf tebygol o ddefnyddio Cymraeg ym mhob cyd-destun. Gan fod mwyafrif yr ymatebion yn dod trwy'r ysgolion yr oedd y plant o bob rhanbarth yn yr arolwg yn eu mynychu, byddai natur yr ysgolion hynny wedi effeithio'n benodol ar y patrwm hwn.

Blaenoriaethau


Gofynnwyd i'r bobl ifanc ddewis o blith rhestr o 12 o flaenoriaethau oedd yn deillio o ganlyniadau'r ymgynghoriad a gynhaliwyd yng nghyfnod cyntaf y prosiect.

Roedd geiriad y cwestiwn fel a ganlyn:

Darllen y rhestr yn ofalus ac yna ticio hyd at 5 peth rwyf ti'n meddwl sy'n fwyaf pwysig i wneud pethau'n well i bobl ifanc yng Nghymru.

Mae canlyniadau'r cwestiwn yma wedi'u crynhoi yn Ffigur 17, yn nhrefn ddisgynnol blaenoriaeth. Bwlio oedd y flaenoriaeth uchaf, gan fod dros hanner y plant wedi'i ddewis.

Ffigwr 17: Blaenoriaethau plant i wneud bywydau yn well i blant yng Nghymru.



Does dim modd gwneud profion ystadegol i gymharu ymatebion y gwahanol is-grwpiau, fel y gwnaed yn adrannau eraill yr adroddiad hwn, oherwydd fformat penodol y cwestiwn yma . Fodd bynnag, y mae modd cymharu ymatebion y gwahanol is-grwpiau yn weledol. Mae'r rhain i'w gweld yn Nhabl 2 ar ffurf safleoedd yn hytrach na chanrannau, er hwylustod dehongli..

At ei gilydd, gallwn weld nad oes fawr ddim gwahaniaeth ym mlaenoriaethau plant ar sail oed, rhyw na rhanbarth; ac mae hynny'n awgrymu set o flaenoriaethau a rennir yn gyffredinol ymhlith y grŵp oed yma yng Nghymru..

Tabl 2: Safleoedd y blaenoriaethau yn ôl rhyw, grŵp oed a rhanbarth

	All	Female	Male	7 to 9	10 to 11	Rural North	Rural Heartlands	Valleys	Metro-politan
Stopio plant rhag cael eu bwlio	1	1	1	1	1	1	1	1	1
Mwy o help i blant a theuluoedd sydd heb ddigon o arian	2	2	2	2	2	2	2	2	2
Gwneud ardaloedd lleol yn fwy diogel i blant	3	3	3	3	3	4	3	3	3
Mwy o help a chefnogaeth i blant sy'n pryderu neu'n teimlo'n drist	4	4	5	4	5	3	4	4	4
Amddiffyn plant rhag cael eu taro yn y cartre	5	5	4	5	4	5	5	6	5
Llefydd gwell i blant dreulio amser yn yr ardal leol	6	6	6	6	6	6	6	5	6
Help i rieni fagu eu plant yn dda	7	7	7	7	7	7	7	7	7
Gwneud ysgolion yn fwy diogel i blant	8	8	8	8	8	9	8	8	8
Helpu plant i gael rhoi barn yn amlach am fywyd yng Nghymru	9	9	9	9	11	8	10	10	9
Helpu plant i gael rhoi barn yn amlach yn yr ysgol	10	10	11	10	10	11	12	9	10
Helpu plant i gael rhoi barn yn amlach am eu hardal leol	11	11	10	11	9	12	9	11	11

Prosiect Beth Nesa, Rhan 2, Adroddiad ar holiadur i blant 7 to 11 oed

Mwy o wasanaethau a gweithgareddau yn Gymraeg	12	12	12	12	12	10	11	12	12
--	----	----	----	----	----	----	----	----	----

